

Ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer y Bil Datblygu Cynaliadwy - Ymateb Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

I. Crynodeb

Wrth draddodi darlith Tynged yr Iaith 2 llynedd fe wnaethom gydnabod fod sefyllfa'r Gymraeg mewn argyfwng a bod angen gweithredu ar fyrder. Mae nifer o ffactorau wedi effeithio ar y dirywiad yn y Gymraeg ar lawr gwlad ac mae perygl i'r dirywio hynny barhau oni bai fod camau yn cael eu cymryd i wrthdroi'r arfer hwnnw.

Credwn ei bod yn bwysig bod y Gymraeg yn rhan o integreiddio polisiau, ac felly rydym yn croesawu'r ffaith bod cyfle, trwy'r Bil arfaethedig hwn, i sicrhau y bydd pob penderfyniad a wneir gan gyrff cyhoeddus yn llesol i iaith unigryw Cymru. Mae'r rhan fwyaf o benderfyniadau a pholisiau - gan gynnwys datblygiadau tai ac ad-drefniadau addysg - yn cael effaith ar y Gymraeg; ac mae'r iaith wedi dioddef yn y gorffennol oherwydd penderfyniadau anghynaliadwy mewn nifer o feysydd. Mae hwn felly yn gyfle pwysig i sicrhau bod y Gymraeg yn elwa bob tro bydd cyrff yn gwneud penderfyniad. Mae hefyd yn gyfle i symleiddio penderfyniadau a fyddai'n osgoi trin y Gymraeg yn docenistaidd ac arwynebol.

Fe wnaethom hefyd ddweud yn narlith Tynged yr Iaith 2 fod gan bob cymuned botensial i fod yn gymuned Gymraeg; er mwyn gwireddu hynny bydd angen newid meddylfryd mewn sawl maes. Mae'r Gymraeg yn ganolog i ddatblygu cynaliadwy ac mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod cysylltiad rhwng y Gymraeg a'r mater yma o'r blaen megis yn y ddogfen "Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned" a gyhoeddwyd yn 2009.

Credwn fod rheidrwydd ar y ddeddfwriaeth i gydnabod yn ddiamwys bod yr iaith Gymraeg yn rhan hanfodol ac annatod o ddatblygu cynaliadwy.

Credwn felly fod:

- yn rhaid i'r Gymraeg fod yn rhan greiddiol o'r diffiniad o gynaladwyedd a geir yn y ddeddfwriaeth;
- angen hawliau statudol i gymunedau ac unigolion herio penderfyniadau cyrff ar sail amcanion, egwyddorion ac ymddygiad datblygu cynaliadwy;
- angen i'r Gymraeg fod yn hanfodol i'r Corff Datblygu Cynaliadwy newydd, gyda'r corff yn gweinyddu trwy gyfrwng y Gymraeg a'i arweinwyr yn rhugl yn y Gymraeg. Ystyriwn y byddai unrhyw Gomisiynydd yn ddiffygiol na bai crap llawn ar y Gymraeg ganddi/o, fel arall ni fyddai yn llwyr ymwybodol o un o golofnau allweddol datblygu cynaliadwy.
- angen grymoedd ehangach a chryfach ar y corff newydd i annog a gorfodi newid ymddygiad er mwyn sicrhau dyfodol cynaliadwy.

Gwelwn debygrwydd rhwng y ddeddfwriaeth hon a deddfwriaeth yn ymwneud â'r Gymraeg dros y blynyddoedd. Dangosodd 19 mlynedd o fodolaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg mai prin iawn y gellid newid ymddygiad a meddylfryd cyrff heb fod grymoedd yn nwylo pobl a bod gan gorff statudol rymoedd gorfodol a'r gallu i osod dirwy.

Gwelwyd tueddiad gan Lywodraeth Cymru i wrthod grymuso pobl a chymunedau ar lawr gwlad. Deallwn fod hyn yn rhannol oherwydd bod ganddom ddeddfwrfa newydd yng Nghymru sydd yn dal i ganfod ei le yn ddeddfwriaethol. Hefyd, gwelwyd y Llywodraeth yn petruso wrth osod egwyddorion cyffredinol ar wyneb deddfwriaeth: tueddiad sydd yn hynod o anffodus oherwydd ei fod yn tueddu i rymuso a ffafrio sefydliadau yn hytrach na phobl a'r blaned.

II. Y Gymraeg fel rhan o ddiffiniad “datblygu cynaliadwy”

Mae'r Gymdeithas yn gweld dyfodol ffyniannus i'r iaith Gymraeg fel cyfrwng naturiol ein cymunedau; mae hyn yn rhannol ddibynol ar ddatblygiadau sydd yn gynaliadwy.

Yn y cyhoeddiad “Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned” a gyhoeddwyd yn 2009 gan Lywodraeth Cymru pwysleisiodd pwysigrwydd y Gymraeg fel rhan o'r diffiniad datblygu cynaliadwy a lles yng Nghymru. Datganwyd un o'r prif ganlyniadau lles yng Nghymru fel y ganlyn: *“Caiff diwylliant, gwerthoedd a thraddodiadau cyfoethog Cymru eu dathlu, yn arbennig drwy annog amrywiaeth, natur unigryw a hyrwyddo'r Gymraeg, gofalu am ein treftadaeth a meithrin natur unigryw leol ac ymdeimlad o le, a chynnig treftadaeth a diwylliant cryf. Un o nodau cyffredinol y ddogfen oedd i sicrhau bod: “modd defnyddio'r Gymraeg mewn gweithgareddau cymdeithasol, hamdden a busnes heb gyfyngiadau ar draws Cymru, a chaiff amgylchedd hanesyddol a diwylliannol Cymru ei ddiogelu a'i gynnal i bawb ei fwynhau.”*

Mae'r ddogfen ymgynghorol hon yn sôn am wneud datblygu cynaliadwy yn “brif flaenoriaeth y dylid seilio penderfyniadau arni” a'r “prif egwyddor drefniadol”. Yn y cyd-destun hwnnw felly, mae'n hanfodol bod lles y Gymraeg yn rhan o ddiffiniad statudol datblygu cynaliadwy. Credwn hefyd ei fod yn bwysig bod y ddyletswydd yn un glir sydd yn golygu bod angen cyflawni dros y Gymraeg yn hytrach nag ei hystyried yn unig.

Mae'r ddogfen yn sôn am ei wneud yn ofynnol i sefydliadau penodol weithredu'n gyson â'r egwyddorion datblygu cynaliadwy. Heblaw i'r Gymraeg fod yn rhan annatod o hynny, mae yna berygl y bydd cyrff cyhoeddus, busnesau a sefydliadau eraill yn is-raddio eu hymrwymyadau i'r Gymraeg. Gan nad yw'r Gymraeg yn cael ei gosod fel egwyddor o ddatblygu cynaliadwy bydd sefydliadau yn cael yr argraff nad yw'r Gymraeg yn rhywbeth hanfodol ond yn rhywbeth ymylol.

Er mwyn cael ei chymryd o ddifrif felly, rhaid i'r Gymraeg fod yn rhan greiddiol o'r diffiniad o gynaliadwyedd a geir yn y ddeddfwriaeth.

Nid oes sôn yn benodol yn y ddogfen ymgynghorol am ddatblygiadau cynaliadwy o ran effaith ar y Gymraeg – er bod angen edrych ar effaith datblygiadau tai o'r perspectif hwn eisoes yn unol â TAN 20. Efallai y gellid dadlau bod yr agwedd hon yn gynwysedig fel rhan o'r elfen ‘gymdeithasol’. Er hynny, gan mai nod y cynllun yw gwella lles pobl a chymunedau dros y tymor hir dylid sôn yn benodol am yr agweddau ieithyddol/diwylliannol. Mae'r papur *Culture as the Fourth Pillar of Sustainable Development* gan Keith Nurse (paratowyd ar gyfer Commonwealth Secretariat, Mehefin 2006) yn nodi:

‘Culture should be viewed not just as an additional pillar of sustainable development along with environmental, economic and social objectives because peoples’ identities, signifying systems, cosmologies and epistemic frameworks shape how the environment is viewed and lived in. Culture shapes what we mean by development and determines how people act in the world.’

Mae cynllun cynladwyedd gwlad y Basg er enghraifft yn son am yr angen 'to promote international projections of Basque culture and elements that define our identity.' (Pwynt 7.3 o Strategaeth Ddatblygu Cynaliadwy Gwlad y Basg 2020)

Yn yr un modd mae www.culturalsustainability.eu yn sôn am yr angen i bwysu a mesur twf economaidd ac anghenion ieithyddol a diwylliannol. Gall yr agweddau diwylliannol helpu i greu 'brand' er enghraifft. Mae egwyddorion confensiwn UNESCO 2005 (convention on the protection and promotion of cultural expressions) hefyd yn cryfhau'r achos dros gynnwys y Gymraeg fel rhan o ddiffiniad datblygu cynaliadwy. :

Article 2 Para 6 -- Principle of sustainable development: *Cultural diversity is a rich asset for individuals and societies. The protection, promotion and maintenance of cultural diversity are an essential requirement for sustainable development for the benefit of present and future generations.*

Article 13 – Integration of culture in sustainable development: *Parties shall endeavour to integrate culture in their development policies at all levels for the creation of conditions conducive to sustainable development and, within this framework, foster aspects relating to the protection and promotion of the diversity of cultural expressions.'*

Am y rhesymau uchod ac eraill felly, credwn fod angen diffiniad clir yn y ddeddfwriaeth o ystyr datblygu cynaliadwy ac i hynny gynnwys lles y Gymraeg yn benodol yn y diffiniad statudol.

III. Sefyllfa'r Gymraeg ar lefel gymunedol

Mae sefyllfa'r Gymraeg yn ein cymunedau ar drai. Fe ddangosodd y cyfrifiad diwethaf gwmp sylweddol yn y nifer o gymunedau lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad gan 70% o'r boblogaeth. Rhwng cyfrifiad 1991 a 2001, fe gwmpodd y nifer o'r cymunedau hynny o 92 i 54 a disgwylir cwmp sylweddol arall yn ffigyrau'r cyfrifiad a gynhaliwyd y llynedd. Mae'n glir bod dyfodol yr iaith fel iaith gymunedol o dan ffigythiad mawr iawn felly.

Mae angen sicrhau dyfodol cymunedau Cymraeg felly trwy amddiffyn a thyfu'r nifer o gymunedau lle mae'r Gymraeg yn iaith naturiol ynddynt. Mae gan y ddeddfwriaeth hon rôl bwysig iawn i'w chwarae wrth geisio gwrth-droi'r patrwm o ostyngiad yn y nifer o gymunedau Cymraeg. Yn eu darlun ystadegol eleni, fe ddangosodd adroddiad Bwrdd yr Iaith y prif ffactorau sydd yn dylanwadu ar ddyfodol y Gymraeg yng Nghymru - gan gynnwys allfudo, mewnfudo ac addysg yn eu plith. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno.

Mae Strategaeth Iaith Gymraeg y Llywodraeth yn cydnabod yr her yn glir:

"[Mae] nifer y cymunedau yng Nghymru lle mae dros 70 y cant o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg wedi lleihau yn sylweddol dros y degawdau diwethaf. Mae prosesau mewnfudo ac allfudo, cyfleoedd gwaith cyfyngedig a chyflenwad cyfyngedig o dai fforddiadwy wedi cael effaith sylweddol ar broffil demograffig a phroffil ieithyddol sawl cymuned."

"Bydd yr heriau penodol yn amrywio o ardal i ardal ond maent yn debygol o gynnwys materion fel y tai fforddiadwy sydd ar gael, diffyg cyfleoedd gwaith, nifer isel o rieni/gofalwyr yn trosglwyddo'r Gymraeg i'w blant, statws isel yr iaith o fewn y gymuned, diffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith, a mewnfudo ac allfudo. Mae'n rhaid i'r gwaith adnewyddu ieithyddol fynd law yn llaw â'r gwaith o wella seilwaith cymdeithasol ac economaidd yr ardaloedd hyn er mwyn helpu i sicrhau bod gwell cyfleoedd gwaith a rhagor o dai fforddiadwy ar gael fel y gall pobl aros yn eu cymunedau. Bydd gwella gallu'r

cymunedau eu hunain i gynnig rhagor o wasanaethau a gweithgareddau Cymraeg yn agwedd bwysig ar y gwaith hwn.”

Yn bwysicach oll, mae'r Strategaeth yn amlinellu:

“Rhennir yr heriau hyn, felly, ar draws holl bortffolios y Gweinidogion ac adrannau Llywodraeth Cymru, a byddwn yn prif ffrydio'r Gymraeg yn ein polisiau datblygu economaidd a'n polisiau datblygu cymunedol fel y bo'n briodol.”

Mae'r Strategaeth hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd Cynlluniau Datblygu Lleol, eu heffaith ar y Gymraeg a'i rôl mewn datblygu cynaliadwy. Ymhellach, mae'r strategaeth yn ymrwymo i:

“Prif ffrydio'r iaith o fewn ein holl waith sy'n ymwneud â chefnogi a datblygu cymunedau ledled Cymru.”

Ymrwymiad sy'n codi'r cwestiwn amlwg felly: gyda Bil mor bwysig â hwn sy'n gosod “prif egwyddor drefniadol”, ydy'r Gymraeg wir yn cael ei phriff ffrydio yn y ddeddfwriaeth arfaethedig? Heb amheuaeth, dydy hi ddim yn ôl y ddogfen ymgynghorol bresenol, felly croesawn y cyfle i gyfrannu at yr ymgynghoriad i sicrhau ei bod hi.

IV. Enghreifftiau eraill o ymddygiad gwahanol

Rhestrir nifer o enghreifftiau yn y ddogfen ymgynghorol o'r ymddygiad y byddai disgwyl i sefydliadau eu harfer pe bai rheidrwydd i ystyried datblygu cynaliadwy wrth weithredu ym mhopeth y byddai'r sector yn ei wneud. Hoffem dynnu eich sylw at benderfyniadau y byddem yn disgwyl eu gweld yn wahanol. Ymysg y rhai o'r polisiau neu ddatblygiadau y byddem yn disgwyl i gael eu hepgor neu rwystro oherwydd y Bil fyddai: datblygiadau tai megis y cynlluniau arfaethedig ym Modelwyddan a Chaerfyrddin; gorsaf niwclear newydd Wylfa B; Ffos y Frân; Sell to Wales; Cynlluniau i gau ysgolion pentrefol; a datblygiadau 'all-drefol'.

Dylai bil cynaladwyedd cryf ateb y cwestiynau canlynol mewn modd a fyddai'n sicrhau buddiannau'r Gymraeg a'n cymunedau:

- A fydd ei ddarpariaethau atal datblygiadau sydd yn niweidiol iawn i'n cymunedau Cymraeg?
- A fydd y Gymraeg yn gryfach o ran nifer o siaradwyr, canran y siaradwyr, ei defnydd a statws?
- A fydd yn atal datblygiadau tu allan i'n trefi a'n pentrefi, y canoli gwasanaethau, y cau ysgolion gwledig a'r meddwl economaidd byrbwyll sydd yn hybu mewnfudo mewn datblygiadau yn dal i gael eu ffafrio?
- Pa hawliau fydd gan gymunedau i sicrhau bod dyfodol i'r Gymraeg yn ein cymunedau yn ddiogel a hwnnw'n ddyfodol hyfyw?

Gallai'r bil hwn gyfrannu tuag at newid gwirioneddol wrth ystyried y Gymraeg o fewn y broses gynllunio. Mewn ardaloedd â phoblogaeth uchel o siaradwyr Cymraeg, gallai'r Awdurdod Lleol osod safonau uwch mewn perthynas â'r Gymraeg wrth gynllunio ar gyfer dyfodiad archfarchnad neu fusnes mawr i'r ardal. Yn rhy mal, rhoddir caniatâd cynllunio i archfarchnadoedd heb ystyried eu hymrwymiad i'r Gymraeg o ran darparu arwyddion Cymraeg a gwasanaeth Cymraeg. Er enghraifft, bwriedir agor siop Tesco ym Methesda, ardal dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg. Mae peryg i'r siop danseilio'r iaith Gymraeg yn yr ardal wrth gyflwyno mwy o Saesneg i'r ardal. Er mwyn osgoi hyn, gellid mynnu yn sgil y bil cynaliadwyedd fod Tesco yn

creu swyddi sydd â'r Gymraeg yn sgil hanfodol iddynt. Fel hyn, bydd y sawl â sgiliau Cymraeg yn gallu aros yn yr ardal ac yn gallu cynnig gwasanaethau iaith Gymraeg i'r cwsmeriaid lleol. Dyma'r gwahaniaeth y gallai bil cynaliadwyedd ei wneud er mwyn sicrhau fod datblygiadau yn cyfrannu i gynaliadwyedd iaith yn ogystal â'r gymuned yn gyffredinol.

Rydym wedi ein siomi hefyd o weld bod y ddeddfwriaeth yn gwneud nifer o gamgymeriadau a welwyd mewn deddfau blaenorol yn ymwneud a'r Gymraeg. Fe welwyd yn glir yn achos Bwrdd yr Iaith Gymraeg a chynlluniau iaith nad yw cynlluniau sydd yn niwlog eu hystyr a heb oblygiadau pan cant eu hanwybyddu yn arwain at newid. Gwelwyd bod dyfodol y Gymraeg wedi ei thanseilio ar lefel gymunedol gan nad oes cosb i awdurdod yn sgil datblygiad tai di-angen neu gau ysgol leol. Rhaid dysgu o'r profiad hwn a chreu cynlluniau sydd â phwrpas clir a "dannedd" statudol.

Mae angen cynlluniau economaidd, yn y gorffennol gwelwyd pwyslais ar nifer llai o ddatblygiadau mawr. Ynghlwm â nifer ohonynt, megis Wylfa B, roedd cynlluniau ar gyfer nifer sylweddol o dai, a fyddai felly yn hybu mewnfudo. Mae enghreifftiau eraill, fel ym Modelwyddan, ble mae cynlluniau ar gyfer nifer llawer mwy sylweddol na'r boblogaeth a ragwelir y bydd yn byw yno ac a fyddai'n troi trefi a phentrefi yn ardaloedd i gymudwyr fyw yn ystod yr wythnos, gan chwalu'r syniad o gymuned. Yn ogystal mae peryglon amgylcheddol a defnydd anghynladwy o adnoddau naturiol gyda hyn.

Ymhellach, credwn ei fod yn hanfodol i'r Comisiynydd Datblygu Cynaliadwy siarad Cymraeg, a bod amddiffyn cymunedau Cymraeg yn rhan o bwrpas a chylch gwaith y Comisiynydd.

V. Pwyntiau Cyffredinol

Er ein bod yn croesawu'r ffaith bod y ddogfen ymgynghorol yn cyfeirio at "*sut i adeiladu ar ein hetifeddiaeth ddiwylliannol, gan gynnwys y Gymraeg*" ar dudalen 3, nid yw diffiniad arfaethedig y Llywodraeth o ddatblygu cynaliadwy, yr amcanion, na'r ymddygiad datblygu cynaliadwy yng ngweddill y ddogfen yn cyfeirio ati o gwbl. Felly mae'r ddogfen yn ei chyfanrwydd yn rhoi'r argraff na fydd cyfeirio at y Gymraeg yn y Bil, ac ni fydd chwaith yn cael ei hystyried fel rhan ganolog o ddatblygu cynaliadwy gan y corff datblygu cynaliadwy.

Credwn y dylai fod sôn am "lles y Gymraeg" yn y diffiniad o gynaliadwyedd ar dudalen 9 o'r ddogfen ymgynghorol.

Credwn y dylid cryfhau'r geiriad "*cymdeithas a chanddi ymwybyddiaeth fyw o'i diwylliant, ei hiaith a'i threftadaeth, lle caiff amrywiaeth ddiwylliannol, ymdeimlad o le a gwahaniaeth eu dathlu a'u gwerthfawrogi.*" ar dudalen 10. Nid yw ymwybyddiaeth yn unig o'r iaith Gymraeg yn ddigonol gan ei bod yn iaith sydd bellach â statws swyddogol o dan ddarpariaethau Mesur y Gymraeg (2011). Dylai'r Bil arfaethedig hwn gydnabod a chadarnhau'r statws yna.

Rydym yn croesawu'r pwyslais ar roi ystyriaeth y dyfodol yn y tymor hir ar dudalen 11 gan fod meddylfryd tymor byr yn gallu tanseilio'r Gymraeg. Fe welwn engreiffiau o hyn gyda phenderfyniadau i amddifadu plant o'u hawl i fod yn rhugl yn Gymraeg drwy gau ysgolion cymunedol Cymraeg: penderfyniadau sydd yn tanseilio'r iaith fel iaith fyw gymunedol. Ymhellach, mae llawer iawn o gyrff yn gwrthod gwneud y Gymraeg yn sgil hanfodol ar gyfer swyddi: penderfyniadau sydd yn arwain yn uniongyrchol at ddiffyg gwasanaeth Gymraeg ar lawr gwlad a llai o ddefnydd ohoni yn y gweithle. Fe welir nifer o awdurdodau lleol yn ehangu ar ddarpariaeth addysg Gymraeg ond heb greu swyddi hanfodol Cymraeg a fyddai'n creu cyfleoedd gwaith i bobl ifanc a fyddai'n eu galluogi i aros yn eu cymunedau.

Ar dudalennau 10 ac 11, croesawn y gydnabyddiaeth o “lles” tu hwnt i gyflog yn unig, ond eto nid oes cyfeiriad at y Gymraeg.

Cytunwn hefyd gyda'r pwyslais ar weithio ar draws ffiniau, mae diffyg darpariaeth gwasanaethau Cymraeg yn deillio o'r system addysg / hyfforddiant. Er enghraifft mae rhai cleifion dementia yn troi yn ôl at eu mamiaith ond methu derbyn triniaeth trwy'r cyfrwng Cymraeg oherwydd diffygion hyfforddiant a chynllunio yn y GIG. Mae'r enghraifft hwnnw hefyd yn enghraifft arall o sut mae'r diffyg gwasanaeth Gymraeg yn effeithio ar les pobl ar lawr gwlad.

Cytunwn hefyd â'r pwyslais ar gymryd rhan: gwelwn nifer o enghreifftiau lle mae cynlluniau ad-drefnu ysgolion yn gwrthod ystyried opsiynau eraill ac yn gweithredu'n wrth-ddemocrataidd gyda swyddogion yn gorfodi cynlluniau ar bobl leol.

Serch hynny, anghytunwn â pharagraff 38, tudalen 18 lle dywedir “Rydym yn gwybod bod hyn yn her anodd a thymor hir, a bydd sicrhau bod pawb yn mabwysiadu meddylfryd datblygu cynaliadwy wrth ystyried pob penderfyniad yn daith yn hytrach nag yn ddigwyddiad.” Credwn y dylai'r Bil atal ymddygiad yn syth, yn y tymor byr.

Mae'r cyfeiriad at gyfraniad honedig Cynlluniau Datblygu Lleol at ddatblygu cynaliadwy ym mharagraff 52, tudalen 24 yn amlygu gwendid diffiniad pen agored datblygu cynaliadwy fel y mae ac effaith y gwendid hwnnw ar y Gymraeg. Mae cynlluniau datblygu lleol, fel y mae, yn hybu mewnfudo a chymudo sydd yn tanseilio cymunedau Cymraeg.

VI. Cwestiynau Penodol yr Ymgynghoriad

Cw.1 Beth yw'r rhwystrau mwyaf rydych yn eu hwynebu rhag gwneud mwy o benderfyniadau cydgysylltiedig tymor hir?

Cw.2 Beth sydd angen ei wneud a chan bwy i leihau neu chwalu'r rhwystrau hyn?

Un o'r rhwystrau mae cyrff yn ei wynebu yw diffyg ystyriaeth, nid yn unig o'r Gymraeg, ond hefyd y cyd-destun ehangach sydd yn effeithio arni. Yn anaml iawn yn ein profiad ni mae nifer o gyrff nad ydynt yn ystyried effaith polisiau cyflogaeth a hyfforddiant ar y Gymraeg, nac ychwaith polisiau cynllunio a chymunedol. Nid oes gwir rym gan neb i atal datblygiadau ar y sail eu bod yn niweidio'r Gymraeg ychwaith. Gwelwn nifer o enghreifftiau lle mae cyflogwyr yn gwrthod neu'n methu darparu gwasanaethau Cymraeg er bod llawer iawn o ddisgyblion yn lleol yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg. Nid yw rhai cynghorau sydd yn hybu a thyfu addysg Cymraeg hyd yn oed yn cymryd y cyfle i wneud y Gymraeg yn hanfodol o fewn eu polisiau cyflogaeth er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn gallu aros yn eu cymunedau. Mae diffyg ymwybyddiaeth o'r materion hyn yn broblem gyffredin iawn ymysg cyrff yr ydym yn dod ar eu traws.

Cw.3 Pa dystiolaeth arall sy'n bod sy'n dangos bod yr agenda datblygu cynaliadwy ar gynnydd a bod Datblygu Cynaliadwy'n cael ei fabwysiadu fel prif egwyddor drefniadol cyrff cyhoeddus?

Os yw'r Gymraeg yn cael ei gweld fel rhan o'r agenda Datblygu Cynaliadwy, prin iawn yw'r enghreifftiau o feddwl cyd-gysylltiedig. Mae sefydlu'r Coleg Cymraeg wedi bod yn gam pwysig ymlaen, ond ni welwn ymdrech cyd-gysylltiedig go iawn i weddu meysydd gwaith lle mae angen llawer o siaradwyr Cymraeg a'r bobl sydd yn dod trwy'r system addysg.

Cw.4 Ydyn ni wedi nodi'r lefel fwyaf priodol o benderfyniadau sefydliadol ar gyfer cymhwyso'r ddyletswydd? Esboniwch.

Cw.5 A fyddai perygl yn hyn o gynnwys rhai penderfyniadau na ddylai fod yn berthnasol o dan y ddyletswydd? Beth fyddai'r rhain?

Cw.6 A oes penderfyniadau sydd heb eu cynnwys a ddylai fod yn berthnasol o dan y ddyletswydd? Beth fyddai'r rhain?

Cw.7 A ddylem ni gynnwys penderfyniadau sy'n rheoli gweithrediadau mewnol sefydliad? Os felly, pa weithrediadau mewnol y dylid eu cynnwys?

Yn gyffredinol, ni chytunwn y dylid mynd at y ddeddfwriaeth o safbwynt dyletswydd, yn hytrach dylid edrych ar hawliau dinasyddion a chymunedau i fyw ac elwa o ddatblygu cynaliadwy. Gellid cyfuno hynny gyda dyletswydd a Chomisiynydd wrth gwrs, ond ni ddylid derbyn bod penderfyniadau yn cael eu gwneud gan uwch-swyddogion yn unig, gan y dylai fod proses democrataidd yn ei harwain; a hynny'n deillio o hawliau democrataidd, economaidd, cymdeithasol ac ieithyddol pobl. Credwn y dylai'r unrhyw ddeddfwriaeth gryfhau hawliau pobl a'u cymunedau.

Fodd bynnag, o benderfynir gosod dyletswydd, credwn y dylai fod ar lefel strategol, gyda'r ddyletswydd yn llifo lawr i lefel polisi neu raglen a phrosiect a gosod datblygu cynaliadwy fel yr egwyddor ganolog ar gyfer gweithredu. Mae strategaeth gwlad y Basg (tudalen 22) yn gosod tair egwyddor:

A) Intergenerational responsibility (assuming responsibility for future generations).

B) Incorporating the perspective of sustainable development into the core of all policies, improving coherence and coordination between the different departments and areas of sectoral policies.

C) Balanced consideration of the repercussions of each policy on the threefold economic, social and environmental dimension, ensuring that balanced progress is made on all three pillars.

D) Joint responsibility.

Cw.8 A ddylai'r ddyletswydd fod yn berthnasol i gynigion cyllideb?

Dylai. Gwelwn nifer o enghreifftiau lle mae dyrannu arian cyhoeddus yn anffafriol i'r Gymraeg gan nad oes dim ystyriaeth o oblygiadau'r penderfyniadau i'r Gymraeg.

Cw.9 A yw'r holl ymddygiadau rydyn ni'n eu nodi yn hanfodol i ymddwyn mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu syniadau datblygu cynaliadwy? Esboniwch.

Cw.10 A oes ymddygiadau hanfodol nad ydyn ni wedi'u nodi? Esboniwch.

Cw.11 Beth yw manteision ac anfanteision dynodi ymddygiadau fel y ffactorau datblygu cynaliadwy y mae'n rhaid iddyn nhw ddylanwadu ar benderfyniadau lefel uchel?

Cw.12 Faint o ddylanwad ddylai ymddygiadau datblygu cynaliadwy ei gael ar benderfyniadau lefel uchel – er enghraifft, a ddylai'r penderfyniadau hynny fod yn gyfreithlon os ydyn nhw'n cael eu gwneud mewn ffordd sydd:

- yn cyd-fynd ag un o'r ymddygiadau, rhai ohonyn nhw neu bob un;
- yn adlewyrchu'r ymddygiadau'n fras;
- yn anghyson â'r ymddygiadau

**•a oes opsiynau eraill?
Cwestiynau ynghylch yr amcanion**

Cw.13 A oes amcanion datblygu cynaliadwy nad ydyn ni wedi'u nodi uchod?

Oes, dylid ychwanegu amcan i gryfhau'r Gymraeg a'i chyflwr yn ein cymunedau.

Cw.14 Beth yw manteision ac anfanteision dynodi amcanion cynaliadwy fel y ffactorau y mae'n rhaid iddyn nhw ddylanwadu ar benderfyniadau lefel uwch?

Cw.15 Faint o ddylanwad ddylai'r amcanion ei gael ar benderfyniadau lefel uwch – er enghraifft, a ddylai'r penderfyniadau hynny fod yn gyfreithlon:

- dim ond os ydyn nhw'n cyfrannu'n weithredol at un neu fwy o'r amcanion hynny;
- os nad ydyn nhw'n amharu ar unrhyw un o'r amcanion;
- hyd yn oed os ydyn nhw'n amharu ar rai o'r amcanion hynny, cyn belled â'u bod yn hybu eraill yn weithredol
- a oes opsiynau eraill? Cwestiwn ynghylch cyfuno'r ddau

Cw.16 Beth yw manteision ac anfanteision seilio dyletswydd ar ymddygiadau datblygu cynaliadwy ac amcanion datblygu cynaliadwy?

Cwestiwn ynghylch y cynnig datblygu cynaliadwy sengl

Cw.17 Beth yw'ch safbwyntiau ar seilio dyletswydd ar gynnig datblygu cynaliadwy sengl?

Nid oes sylwadau penodol gennym ar rai o'r cwestiynau, ond yn gyffredinol, nid ydym yn gweld cymaint â hynny o werth yn y ddyletswydd gyffredinol i hyrwyddo neu ystyried datblygu cynaliadwy – yn aml iawn mae cyrff cyhoeddus fel llywodraeth leol yn gallu nodi iddynt ystyried gofynion, heb i hynny fod yn amlwg o ran y rhesymeg y penderfyniad. Mae hyn yn gallu arwain at heriau cyfreithiol megis o dan deddfwriaeth tai.

Mi ddylai fod yn orfodol pwysu a mesur datblygiadau yn erbyn egwyddorion craidd datblygu cynaliadwy. Y broblem, neu un ohonynt, ydi sut mae gwneud unrhyw system newydd yn wahanol i'r ffordd mae adrannau/cynghorau ac yn y blaen yn 'cyfiawnhau' penderfyniadau gwael ar hyn o bryd. Bydd angen corff trawsffiniol a thraws ddisgyblaethol efo gweledigaeth glir a byddai rhaid i Lywodraeth Cymru osod y cywair er enghraifft trwy weithredu'n gorfforaethol ar gynnaladwyedd a datblygu diwylliant gweithredol newydd.

Cw.18 Faint o amser y dylid ei roi i sefydliadau wneud y newidiadau hyn?

Cwestiwn ynghylch rhoi cyfarwyddyd

Cw.19 A fyddai'n ddefnyddiol cyhoeddi canllawiau ffurfiol i sefydliadau y mae'r ddyletswydd newydd yn berthnasol iddyn nhw?

Mae canllawiau yn aml yn chwarae rhan bwysig mewn esbonio a dehongli deddfwriaeth. Mi fydd angen i'r canllawiau yma fod yn glir iawn. Bydd angen i'r Bil ei hun fod yn gadarn yn y lle cyntaf neu fel arall bydd unrhyw ganllawiau yn llai defnyddiol. Credwn y byddai canllawiau statudol yn well gan nad oes llawer o ddiben i ganllawiau nad oes rhaid i gyrff cyhoeddus gydymffurfio â hwy.

Cw.20 A ddylai unrhyw gyfarwyddyd o'r fath gael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru neu'r corff datblygu cynaliadwy newydd?

Fel mater o egwyddor, byddai'n well gweld corff datblygu cynaliadwy yn delio ag unrhyw gyfarwyddiadau neu ganllawiau yn hytrach na'r Llywodraeth. Gan fod awgrym y dylai'r

Llywodraeth fod o dan ddyletswydd statudol, ni fyddai'n briodol iddynt lunio canllawiau neu gyfarwyddiadau.

Cw.21 A oes unrhyw ddyletswyddau statudol penodol y byddai'n briodol eu diddymu, yng ngoleuni'r dull gweithredu rydyn ni'n ei gynnig o dan y Bil Datblygu Cynaliadwy?

Cw.22 A oes rhwystrau cyfreithiol rhag darparu'n unol â'r ffactorau datblygu cynaliadwy rydyn ni wedi'u hamlinellu y gallai'r Bil Datblygu Cynaliadwy gael gwared arny'n nhw?

Cw.23 A ddylai fod yn ofynnol i sefydliadau gyflwyno adroddiad ar gydymffurfio â'r ddyletswydd drwy'r trefniadau adroddiad blynyddol presennol?

Nid oes sylwadau gennym

Cw.24 A oes sefydliadau ar y rhestr hon na ddylai'r ddyletswydd fod yn berthnasol iddyn nhw? Esboniwch.

Nac oes

Cw.25 A oes sefydliadau nad ydynt ar y rhestr hon y dylai'r ddyletswydd fod yn berthnasol iddyn nhw? Esboniwch.

Nid yw'n amlwg pam nad yw'r rhestr yn cynnwys y sector preifat gan fod y sefydliadau hynny yn gallu cael effaith mawr ar fywydau pobl. Mae hyn eto yn dangos gwendid dilyn y trywydd dyletswydd yn hytrach na hawliau amgylcheddol, cymdeithasol ac ieithyddol dinasyddion a chymunedau gan fod hawliau cyffredinol yn berthnasol i ymddygiad bob corff boed yn sector cyhoeddus, preifat neu drydedd sector.

Cw.26 A oes manteision neu anfanteision eraill ynghlwm â diffinio "datblygu cynaliadwy", ac os felly beth ydyn nhw?

Credwn fod diffinio "datblygu cynaliadwy" yn angenrheidiol: hynny ydi gosod allan egwyddorion craidd datblygu cynaliadwy – amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol. Fel y dywed adroddiad Bruntland: *"Sustainable development is development that meets the needs of the present without compromising the ability of future generations to meet their own needs."*

Cw.27 Pe byddem yn diffinio "datblygu cynaliadwy", ydych chi'n meddwl y byddai'r diffiniad yn addas, a pham?

Nac ydyn, credwn ei fod yn hanfodol cynnwys lles y Gymraeg fel rhan o'r diffiniad.

Cw.29 Oes gennych chi farn ar sut dylai prif swyddogaethau'r corff newydd weithredu?

Ni chredwn fod y modelau a amlinellwyd yn sicrhau y bydd cyrff a fyddai'n dod o dan y ddyletswydd arfaethedig yn cydymffurfio ag ef. Nid oes pwrpas mewn dyletswydd heb ganlyniadau pe ceir ei dorri, felly credwn y dylid rhoi grymoedd eang i'r corff newydd i sicrhau cydymffurfio.

Credwn y byddai'n angenrheidiol i'r corff ymateb i gwynion gan y cyhoedd ac i herio'r corff am beidio delio â'u cwynion.

Cw.30 Ydych chi'n credu y dylai unrhyw gorff gael ei sefydlu'n statudol?

Ydyn

Cw.31 Ydych chi'n cytuno â'r swyddogaethau arfaethedig i sefydlu corff newydd yn statudol?

Cw. 32 A oes swyddogaethau eraill y dylid eu hystyried?

Credwn y dylid rhoi pwerau i'r corff gosbi a gorfodi sefydliadau i weithredu neu beidio â gweithredu mewn gwahanol ffyrdd, ac hefyd eu dirwyo. Mae angen cydbwysedd rhwng annogaeth a gorfodaeth, ond nid oes cynlluniau i sicrhau fod canlyniadau i gyrff sy'n dewis peidio cydymffurfio ag unrhyw ddyletswyddau. Byddai gwendid o'r fath yn colli cyfle mawr i newid ymddygiad.

Mater i'r corff datblygu cynaliadwy yn bennaf fyddai sut a phryd i ddefnyddio'r pwerau eang hyn. Ond credwn y dylai fod mecanwaith sydd yn galluogi pobl a chymunedau i herio penderfyniadau'r corff ac i geisio cywiro diffyg neu orfodi penderfyniad sydd yn fwy hygyrch nag adolygiad barnwrol.

Credwn y dylid rhoi'r Gymraeg yn rhan ganolog o rôl y corff, ac y dylai bod yn rhugl yn y Gymraeg fod yn hanfodol i'r rhai sy'n gweithio iddo, fel ei fod yn arwain y ffordd i gryff eraill o ran cryfhau'r Gymraeg.

Cw.33 Oes gennych chi farn benodol ar annibyniaeth y corff newydd?

Cw.34 Oes gennych chi farn benodol am y trefniadau atebolrwydd ar gyfer y corff newydd?

Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol, yn hytrach na Gweinidogion y Llywodraeth, benodi aelodau'r corff newydd. Hefyd, dylai fod gan y corff newydd llif arian annibynnol o'r Llywodraeth, gellid edrych ar sut yr ariennir Archwilydd Cyhoeddus Cymru yn hynny o beth.